------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 7 Mawrth 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 124(v3)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 mins)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig:**

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i effeithiau storm Emma ar Gaergybi?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth (i'w ateb gan y Gweinidog Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon):**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lee Waters (Llanelli): Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith rhoi'r gorau i ddarlledu rygbi rhanbarthol am ddim o dymor nesaf ymlaen?

Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (i'w ateb gan y Gweinidog Tai ac Adfywio):

David Melding (Canol De Cymru): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gytundeb contract lesddaliad Llywodraeth Cymru gyda phump o'r prif adeiladwyr cartrefi?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Urddas a Pharch yn y Cynulliad

(30 munud)

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Cyfiawnder Troseddol

(60 munud)

NDM6665
Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)
Jane Hutt (Bro Morgannwg)
Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)
Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)
David Melding (Canol De Cymru)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu at y ffaith:

a) bod polisïau cyfiawnder troseddol ar gyfer Cymru a Lloegr wedi methu ag atal y cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael eu carcharu;

b) nad yw amodau'r carchardai lle y mae gormod o garcharorion o Gymru yn cael eu cadw yn ffafriol i adsefydlu, fel yr amlygwyd gan adroddiadau arolygu diweddar ar CEM Abertawe a CEM Lerpwl;

c) bod 47 y cant o garcharorion yn aildroseddu o fewn blwyddyn;

d) nad yw'r rhan fwyaf o argymhellion adroddiad Corston o 2007 am drin troseddwyr sy'n fenywod wedi'u gweithredu eto, gan anwybyddu'r dystiolaeth bod carcharu menywod am droseddau cymharol ddibwys yn amharu ar fywydau eu plant mewn ffordd sylweddol, costus ac na ellir ei chyfiawnhau.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i:

a) treialu modelau amgen o gosbi troseddwyr di-drais o Gymru yng Nghymru er mwyn osgoi amharu ar y teulu, tai a chysylltiadau cyflogaeth sy'n elfennau hanfodol i adsefydlu llwyddiannus;

b) hyrwyddo gwaith cydgysylltiedig gwell rhwng gwasanaethau iechyd, tai a chyfiawnder troseddol i frwydro yn erbyn y cynnydd mewn digartrefedd a salwch meddwl ymysg pobl sy'n gadael carchar;

c) datblygu polisi cosbi Cymreig penodol ar sail y dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio;

3. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol yn y pen draw, ynghyd â'r adnoddau i adsefydlu troseddwyr mewn modd ataliol ac adferol, gan roi terfyn ar y drws troi rhwng y carchar ac ail-droseddu.

Adroddiad y Swyddfa Gartref - The Corston Report (Saesneg yn unig)
Women in Prison - The Corston Report 10 Years On (Saesneg yn unig)

**Cefnogwyr**
David Rees (Aberafan)

## 7 Dadl ynghylch y ddeiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

(60 munud)

**NDM6677** David J. Rowlands (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru' a gasglodd 6,398 o lofnodion.

P-05-796 Galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd yr arfer o ddefnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru

## 8 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynghylch Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

(60 munud)

**NDM6680** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 'Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2018.

2. Yn cymeradwyo argymhellion 1, 2, 4 a 7 o'r adroddiad, sy'n argymell gwelliannau i Fil Llywodraeth y DU, Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael).

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) (Saesneg yn unig)

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6679 Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Cartrefi diogel - teuluoedd sefydlog

Pam mae angen diddymu adran 21 i roi mwy o sicrwydd i deuluoedd yn y sector rhentu preifat yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 13 Mawrth 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 28/02/2018 i'w hateb ar 07/03/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

**Nick Ramsay Mynwy**

1 OAQ51856

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gategoreiddio ysgolion yn Sir Fynwy?

**David Melding Canol De Cymru**

2 OAQ51846

Beth y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i ddenu myfyrwyr o dramor i brifysgolion Cymru?

**Bethan Sayed Gorllewin De Cymru**

3 OAQ51835

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu system addysg sy'n adlewyrchu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

**Russell George Sir Drefaldwyn**

4 OAQ51839

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y grant gwella addysg i ysgolion?

**Gareth Bennett Canol De Cymru**

5 OAQ51858

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am addysg gwleidyddol a dinasyddiaeth mewn ysgolion yng Nghymru?

**Jane Hutt Bro Morgannwg**

6 OAQ51843

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ariannu ysgolion ym Mro Morgannwg?

**Andrew R.T. Davies Canol De Cymru**

7 OAQ51857

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag addysg gynradd? **TYNNWYD YN OL**

**Simon Thomas Canolbarth a Gorllewin Cymru**

8 OAQ51867

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cynnal ynglŷn â darparu llaeth am ddim mewn ysgolion?

**Mark Isherwood Gogledd Cymru**

9 OAQ51838

Pa gefnogaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei darparu i bobl ag anghenion dysgu ychwanegol sydd eisiau astudio bagloriaeth Cymru?

**Mick Antoniw Pontypridd**

10 OAQ51865

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael am y gweithredu diwydiannol presennol yn y sector prifysgolion yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth Ynys Môn**

11 OAQ51872

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am wasanaethau cyngor gyrfaoedd?

**Lynne Neagle Torfaen**

12 OAQ51854

Pa gamau y mae Ysgrifennydd y Cabinet yn eu cymryd i wella deilliannau addysgol ar gyfer plant Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru?

**Paul Davies Preseli Sir Benfro**

13 OAQ51832

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi lles plant mewn ysgolion yng Nghymru?

**Sian Gwenllian Arfon**

14 OAQ51866

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am werth addysg perthnasoedd iach yn ysgolion Cymru?

**Hefin David Caerffili**

15 OAQ51842

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am bwysigrwydd technoleg a sgiliau digidol yn y cwricwlwm?

# Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

**Rhianon Passmore Islwyn**

1 OAQ51860

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sylwadau Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar fasnachfraint rheilffyrdd bresennol Great Western? **TYNNWYD YN OL**

**Caroline Jones Gorllewin De Cymru**

2 OAQ51861

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i ddatblygu'r sector gwyddorau bywyd yng Nghymru?

**Janet Finch-Saunders Aberconwy**

3 OAQ51850

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am waith datblygu ar yr A55 yng ngogledd Cymru?

**Paul Davies Preseli Sir Benfro**

4 OAQ51834

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi economi Sir Benfro?

**Darren Millar Gorllewin Clwyd**

5 OAQ51849

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gefnogi cynaliadwyedd gwasanaethau bysiau ledled Cymru?

**Mick Antoniw Pontypridd**

6 OAQ51863

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddatblygu'r depo gwasanaethu arfaethedig i Fetro De Cymru yn Ffynnon Taf?

**Paul Davies Preseli Sir Benfro**

7 OAQ51833

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r seilwaith trafnidiaeth yn Sir Benfro?

**Mohammad Asghar Dwyrain De Cymru**

8 OAQ51840

Sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cynyddu nifer y twristiaid sy'n ymweld â Dwyrain De Cymru yn ystod y pumed Cynulliad? **TYNNWYD YN OL**

**Mark Reckless Dwyrain De Cymru**

9 OAQ51855

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau a fydd y ddadl a'r bleidlais ar ffordd liniaru'r M4 a gyhoeddwyd mewn llythyr at Aelodau'r Cynulliad yn gyfrwymol neu'n gynghorol?

**Mike Hedges Dwyrain Abertawe**

10 OAQ51830

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau trafnidiaeth ar gyfer dinas ranbarth bae Abertawe?

**Bethan Sayed Gorllewin De Cymru**

11 OAQ51853

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu cynlluniau i wella twristiaeth yn ne-orllewin Cymru?

**Sian Gwenllian Arfon**

12 OAQ51868

Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon?

**Mandy Jones Gogledd Cymru**

13 OAQ51847

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddatblygu economaidd yn rhanbarth Gogledd Cymru?

**Joyce Watson Canolbarth a Gorllewin Cymru**

14 OAQ51841

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwell gwasanaethau wi-fi ar drafnidiaeth yng Nghymru?

**Adam Price Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr**

15 OAQ51859

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddarparu gwybodaeth bellach am y goblygiadau i fasnachfraint Cymru a'r Gororau o Abellio Rail Cymru yn tynnu ei gais yn ôl o'r broses gaffael?